

This is an Open Access document downloaded from ORCA, Cardiff University's institutional repository:<https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/172251/>

This is the author's version of a work that was submitted to / accepted for publication.

Citation for final published version:

Loeffler, Marion 2024. Arloeswr Angof o'r Almaen: Friedrich Carl Meyer (1800-1885). Hanes Byw 5/Hydr , pp. 24-27.

Publishers page:

Please note:

Changes made as a result of publishing processes such as copy-editing, formatting and page numbers may not be reflected in this version. For the definitive version of this publication, please refer to the published source. You are advised to consult the publisher's version if you wish to cite this paper.

This version is being made available in accordance with publisher policies. See <http://orca.cf.ac.uk/policies.html> for usage policies. Copyright and moral rights for publications made available in ORCA are retained by the copyright holders.



Hen-Daid i'r Dysgwyr Almaeneg: Friedrich Carl Meyer

Amddiffynnydd y Gymraeg: Friedrich Carl Meyer

Yn Ionawr 1844, llongyfarchodd golygydd *Yr Haul* i'r Dr Friedrich Carl Meyer am deithio Cymru 'i berffeithio ei hun yn ei wybodaeth helaeth' o'r Gymraeg, gan ei osod fel patrymlun i bob Dic Sion Dafydd o Gymro ifanc drwy ofyn: 'Onid ydyw y ffaith hon, ynnddi ei hun yn gweinyddu cerydd trwm ac haeddiannol i'r Cymry hynny a esgeulusant eu hiaith, gan ei hystyried islaw eu sylw?'. Er iddo fod yn Almaenwr, ymdrechodd Meyer i ddysgu siarad ac ysgrifennu'r iaith, ceisiodd cyfansoddi cynghanedd, cyfieithodd darnau o gerddi hynaf y Gymraeg i'r Almaeneg, amddiffynnodd yr iaith yn gyhoeddus ym 1847, a noddodd cystadlaethau yn Eisteddfodau'r Fenni yn ogystal. Troednodyn yn unig yw Friedrich Carl Meyer yn hanes Astudiaethau Celtaidd yr Almaen gan academyddion, ond yma yng Nghymru dylid ei gofio fel dysgwr dylanwadol ac amddiffynnydd y Gymraeg.

Nid oes gennym lun ac ni wyddom lawer am ddyddiau cynnar Meyer. Fe'i ganwyd yn nhref Rinteln, yn Niedersachsen, rhywbryd o gwmpas y flwyddyn 1800, ac astudiodd ym München cyn teithio i Rufain er mwyn astudio'n bellach. Yno enillodd arian fel tiwtor meibion Frances a Christian von Bunsen, a fyddai'n llysgennad Prwsia ym Mhrydain o 1841 tan 1854. Chwaer Arglwyddes Llanofer, un o noddwyr mawr Cymreigyddion, Eisteddfodau'r Fenni a diwylliant Cymru, oedd Francis, ac felly cysylltwyd y dyn ifanc hwn â Chymru. Byddai Meyer yn gyfaill a chefn i'r teulu Bunsen hyd at farwolaeth Christian ym 1860 a Francis ym 1876.

Ni wyddom yn fanwl ble astudiodd Meyer yr ieithoedd Celtaidd, ond fe a gipiodd gwobr Eisteddfod y Fenni 1842 am y traethawd gorau ar le'r Gymraeg ymhlith yr ieithoedd Celtaidd, a lle'r rheini ymhlith yr ieithoedd Indo-Ewropeaidd. Yn ei absenoldeb, derbyniwyd y wobwr gan y cad raglaw Ernest Bunsen, nai Arglwyddes Llanofer, a chyfaill i Meyer yn ôl ym Mhrwsia. Mae'n debyg mai yn hydref 1843, y cyrhaeddodd Meyer Gymru yn gyntaf. Cawn ddilyn ei daith o gwmpas cartrefi a llyfrgelloedd deallusion y genedl drwy eu llythyrau at ei gilydd. Gŵr ifanc tenau ydoedd, yn ôl W. J. Rees (Casgob), yn dilyn deiet syml ac yfed dŵr yn unig. Mynnodd gerdded i bobman yn y sgidiau trymion Cymreig a roddwyd iddo, gan wrthod y merlyn a gynhigiwyd iddo, hyd yn oedd yn stormydd y gaeaf mynyddoedd canolbarth Cymru. O Lanofer, a chartref Thomas Price (Carnhuanawe) yng Nghwmdru cerddodd i Gasgob at W. J. Rees, Llanrhaidr-ym-Mochnant at Walter Davies (Gwallter Mechain), Abergwili at Esgob Connop Thirlwall, Nanhyfer at John Jones (Tegid), ac yn ôl i

Gwmdu, Casgob a Llanofar, ble arhosai tan 1845. Astudio'r Gymraeg a'i hen lawysgrifau gyda'r ysgolheigion hyn a pherffeithio ei afael ar y Gymraeg lafar oedd ei amcan.

Arglwyddes Llanofar, yn ôl pob sôn, oedd angor a chyfaill agosaf y dyn ifanc, ond Casgob a Gwallter Mechain oedd ei athrawon pennaf. Enynnodd Gwallter Mechain, yn enwedig, yr un cariad ynddo rydym yn ei synhwyro o lythyrau a chofiannau Cymry blaenllaw y cyfnod. Cyhoeddodd Meyer goflith edmygus pan fu farw Gwallter, ac erys y gerdd hiraethus a gyfansoddodd iddo fel yr ymdrech cyntaf gan Almaenwr i gynganeddu:

Y gwanwyn, teg ei wan o Sermania,
Yn genad ym i'r Hen Vardd ehed gwna
O ddiffaith moel, bro ddihoff clawdd Offa
I'r winllan awen, i'r pen heb eira
I winnau hav-llin, fflur anniva – gwallt –
Gwallter Mechain, dor, dwg iechyd da.
Dr. Carl Meyer a'i cant.

Anfonwyd cwodyn o wallt y Gwallter at Meyer pan y bu farw ym 1849, fel at ddisgyblion Cymreig megis Thomas Stephens o Ferthyr Tudful, a nododd fod gwallt ei athro 'as silky in texture as the wearer is kind hearted [. . .] not white but brown'.

Roedd hiraeth yn llinellau Meyer am ei fod erbyn 1847 yn ysgrifennydd Almaeneg a llyfrgellydd i'r Tywysog Cydweddog Albert, a oedd â diddordeb mawr yn yr ieithoedd Celtaidd, diddordeb a aeth yn groes i ddymuniadau'r llywodraeth ar adegau. Diolch i Meyer, y mae yn y llyfrgell frenhinol o hyd gasgliad o eiriaduron, beiblau a gweithiau cyfoes yn yr ieithoedd Celtaidd. Uchafbwynt gyrfa Meyer, o bosib, yw'r 27 Mehefin 1847, pan draethodd am yr ieithoedd Celtaidd o flaen y *British Association for the Advancement of Science* a'r Tywysog Gydweddog Albert, ar y cyd â Bunsen a'r athro Friedrich Max Müller. Hawliodd Bunsen safle anrhydeddus i'r ieithoedd Celtaidd yn y teulu Indo-Ewropeaidd, megis y '*most ancient formation of the whole stock*', ac adlewyrchai darlith Müller agwedd drefedigaethol yr *East India Company* a oedd yn noddi ei ymchwil ef. Aeth Meyer y tu hwnt iddynt ac i draethu am ddylanwad llenyddiaeth a diwylliant y Cymry yn yr Oesoedd Canol, drwy sôn am beth rydym ni erbyn hyn yn galw yn bolisiau iaith. Galwodd am '*enlightened care of the government*' i'r Gymraeg am ei bod yn '*one of the most precious, as well as most ancient gems in the Imperial Crown*'. Yn nghyd-destun cyhoeddi adroddiad llywodraethol a

adnabyddir megis ‘Brad y Llyfrau Gleision’ ymhen mis, adroddiad ar gyflwr addysg yng Nghymru a gyhuddai’r Cymry o fod yn anfoesol ac yn tueddu tuag at derfysg oherwydd eu bod yn siarad Cymraeg, roedd y datganiad hwn yn anhygoel o arloesol.

Er bod Meyer yn ceisio hybu’r Gymraeg yng nghylchoedd brenhinol Lloegr, a’r frenhines Victoria yn ei edmygu am ‘*knowing I don’t know how many languages, including numbers of ancient ones such as Welsh & Irish*’, doedd Meyer ddim yn hapus yn awyrgylch tra ffurfiol y llys brenhinol. Dysgwn o lythrau Arglwyddes Llanofer ei bod hi’n meddwl iddo fod yn fwy cymwys i fywyd bwthyn cefn gwlad Cymru na’r llys a Windsor ble gwastraffwyd ei ddawn, yn ei eiriau hi. Collodd Meyer ei swydd yn ddisymwth ym 1851, am iddo cyfansoddi barddoniaeth i un o foneddigesau’r llys yn ôl bob sôn, arfer a welwyd yn hynod amhriodol. Dychwelodd i’r Almaen, ond ni ballodd ei ymrwymiad i Gymru a’r Gymraeg.

Y ystod ei arhosiad gyda Charnhuanawc a Chasgob ym 1843 a 1844, roedd Meyer wedi astudio llawysgrifau Llyfr Aneirin yn agos, gan gymharu gwahanol fersiynau a chywiro gwallau trawsysgrifio. Yn awyddus i weld golygiad a chyfieithiad ysgolheigaidd o’r testun, cynigiodd wobrau yn Eisteddfodau’r Fenni yn 1848 a 1853. Cyflwynwyd testunau gan ddau ysgolhaig dylanwadol y ganrif ym 1853, Thomas Stephens (Casnodyn) a John Williams (ab Ithel), a’r ddau yn diolch i Meyer yn rhagarweiniadau eu gwaith. Nodai ab Ithel ei fod ‘*under deep obligations*’ i Meyer am gyfuno gwahanol copïau a llawysgrifau gan gywiro gwallau. Eto i gyd, pan ataliwyd y wobr gan Meyer, gwylltiodd ei brif feirniadaeth – fod yr ymgeiswyr yn dal i fod yn gaeth i’r cof am ddynion megis William Owen Pughe ac Iolo Morganwg – deallusion y genedl cymaint, fel y cyhuddwyd ef o beidio deall llenyddiaeth y Cymry am nad oedd yn ‘*native of the Principality of Wales*’. Serch hynny, cyhoeddodd y *Cambrian Journal* ei draethawd o 1842, wedi ei gyfieithu o’r Ffrangeg wreiddiol, ym 1854.

Parhaodd Meyer i ymchwilio a thraethu ar y Gymraeg yn Berlin, ble gwasanaethai fel *Legationsrat* ar staff Augusta Brenhines Prwsia, ac wedi 1865 megis Ysgrifennydd Llenyddol i Frenin Prwsia Wilhelm I. Yn 1863, cyhoeddodd lith ar *Pobloedd, ieithoedd a llenyddiaethau Celtaidd hyfyw yn eu hanes a’u pwysigrwydd*, a ddangosai ei ysgolheictod a’i ddawn dweud, ond hefyd dylanwad ideolegau hiliol a milwriaethol ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Disgrifiodd gyn-deidiau’r Cymry – Celtiaid y de (*die Süd-Kelten*) – fel rhai tywyllach eu pryd a’u gwallt na Cheltiaid y gogledd, gan iddo dybio eu bod mudo drwy Asia a gogledd Affrica. Eto i gyd, ceir yn y cyhoeddiad hwn gyfieithiad cyntaf i’r Almaeneg o benillion o’r ‘Gododdin’, o rai o’r ‘Gorchanau’ ac o ‘Marwnad Geraint fab Erbin’, yn ogystal ag atgynhyrchiadau o’u testunau. Erys rhain yn dyst i ddealltwriaeth ddofn Meyer o

Lyfr Aneirin, ond hefyd o'i edmygedd amserol o'r Gododdin megis arwrgerdd gyhyrog â 'rhythm milwrol nodweddiadol' ('*eigenthumlich kriegerischer Bewegung*'), yn ei eiriau ef. Roedd 'Gwarchan Cynfelyn' yn 'farwnad filwrol' ('kriegerische Tottenklage') iddo, yn debyg i rhai yr hen lwythau Germanaidd. Edmygwyd pŵer milwrol grymus Prwsia ledled Ewrop. Fel yn ei ddarlith o 1847, gwnaeth apêl ddiwylliannol-wleidyddol ar ddiwedd llyfryn 1863, ond erbyn hyn gelwid ar i ysgolheigion a gwerin yr Almaen arfaethedig ymchwilio i lenyddiaethau arwrol y Celtaid er mwyn atgyfnerthu grym milwriaethol y wlad. Dengys cyhoeddiad olaf Meyer ym 1872, cyfieithiad i Gymraeg fodern a thrafodaeth o 'Cerddi Juvenus' yn *Archaeologia Cambrensis*, ysgolheictod llai gwleidyddol a hiraeth am ei gyfeillion gynt.

Daw y sylw olaf am Meyer yn ei gysylltiad â Chymru a'r ieithoedd Celtaidd ym 1871, gan adlewyrchu gwleidyddiaeth cyfnod a fyddai'n arwain at y Rhyfel Mawr a marwolaethau miloedd. Ym mis Chwefror 1871, adroddwyd yn edmygus gan *Western Mail* ar ymweliad cadfridogion a boneddigion Almaeneg i'r 'monster gun' a orchfygodd byddin Ffrainc ym mrwydr Mont Valérien ar bwys Paris. Ymhlith y dynion oedd yn mynychu'r achlysur oedd '*the King's literary secretary, Dr. Meyer, well known in England as the first Welsh scholar living*'. Mae'n rhaid bod Meyer wedi bob ymhlith y gynulleidfa a welai cyhoeddi y Brenin Wilhelm IV o Brwsia yn Ymerawdwr yr Almaen unedig yn Versailles, gan gychwyn cyfnod o gystadlu am oruchafiaeth Ewropeaidd a fyddai'n arwain at y Rhyfel Mawr. Bu farw Friedrich Carl Meyer ym Berlin ar 9 Ionawr 1885, ei fywyd yn adlewyrchu diddordebau ysgolheigaidd ond hefyd gwleidyddiaeth y cyfnod. Cychwyn Astudiaethau Celtaidd proffesiynol mewn prifysgolion oedd y 1880au, a buan anghofiwyd cyfraniadau amaturiaid hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg gan yr ysgolheigion academaidd.

Marion Löffler

Caerdydd